Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Hermon**

**Canolfan Gymunedol Hermon**
**Hermon**
**Glogue**
**SA36 0DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

## 24 Medi 2018

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Hermon yn darparu gofal dydd sesiynol ar gyfer uchafswm o 10 o blant, dwy i dair blwydd oed. Cofrestrwyd y gwasanaeth ym mis Ebrill 2002. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o Ganolfan Gymunedol Hermon rhwng 9.00am a 12.00pm, dydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Darperir y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Iwan Ward yw'r person cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth a'r personau â gofal yw Mandy Phillips a Bethan James.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gofelir am y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Hermon gan staff cynnes a gofalgar. Maent yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion yn gyffredinol. Mae’r plant yn hapus iawn ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma. Mae'r staff yn sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae gan blant fynediad at amrywiaeth dda o adnoddau sydd o ansawdd da. Mae rhieni yn ganmoliaethus iawn ynghylch y gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod y broses arolygu, cadarnhaodd yr arweinwyr eu bod wedi gwneud y canlynol:

- dod o hyd i rif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dyddiad cyhoeddi un aelod o'r staff;
- cael gwared ar y mop;
- cael gwared ar y pwll tywod awyr agored gyda gorchudd a oedd wedi torri;
- cadarnhau bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cwblhau a bod copi o'r dystysgrif wedi
  cael ei anfon;
- wedi anfon copi o'r llythyr a anfonwyd i'r pwyllgor neuadd yn eu hysbysu ynghylch yr angen i'r gwasanaeth gydymffurfio â'r rheoliadau mewn perthynas â gwasanaethu'r system wresogi.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym yn argymell bod arweinwyr yn:

- diweddaru'r datganiad o ddiben;
- ffurfioli'r broses oruchwylio;
- sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant cyfredol;

- rhoi labeli ar flychau storio;
- datblygu'r gornel llythrennedd/rhifedd ymhellach;
- ystyried cynyddu'r mannau storio;
- datblygu’r ardal awyr agored ymhellach;
- cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant ymhellach.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar blant yng Nghylch Meithrin Hermon ac maen nhw'n gallu gwneud dewisiadau. Maen nhw'n hapus, yn ddiogel ac wedi ymgartrefu, ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn mynegi eu hunain ac yn hyderus y bydd cliwiau di-eiriau yn cael eu hadnabod ac y gweithredir arnynt. Gallant ryngweithio'n hyderus gyda'i gilydd a chydag oedolion.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yng Nghylch Meithrin Hermon ddewis, gwrandewir arnynt, ac maen nhw'n cyfathrebu â'i gilydd ac â'r oedolion sy'n gofalu amdanynt.

Roedd yn amlwg bod y plant yn mwynhau eu hunain wrth iddynt ganu yn ystod amser cylch a gwelsom blant yn dewis pa ganeuon yr oeddent eisiau eu canu, er enghraifft, dewisodd un plentyn 'Mr Hapus ydw i''. Rhoddwyd dewis i'r plant, er enghraifft, roedd un plentyn am roi'r gwastraff o'i phlât yn y bin coch ac roedd yn gallu gwneud hyn a gofynnodd plentyn arall am ffa pob wrth ochr ei dost yn lle ar ben ei dost ac ymatebodd y staff i'w gais. Gofynnodd y plant am ragor o fwyd a diod, ac roeddent yn gallu cael mwy ac roedd cliwiau di-eiriau yn cael eu nodi hefyd. Er enghraifft, pwyntiodd plentyn ifanc at y plât gan ddangos ei fod am gael rhagor o ffa pob ac ymatebwyd i'r cais. Hefyd, cododd blentyn bot o ddŵr i'r awyr gan ddangos ei fod am gael rhagor o ddŵr ac eto ymatebwyd i'r cais.

Mae llais cryf gan y plant yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y gwasanaeth hwn, maent yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, ac maent yn hapus ac wedi ymlacio.

Roedd y plant yn hapus o ran eu chwarae a'u gweithgareddau. Roedd y plant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn datblygu cydberthnasau da. Roedd helpwr y dydd yn deall trefn y diwrnod gan gyhoeddi'r hyn a oedd yn mynd i ddigwydd nesaf yn hyderus. Gwnaeth y plant drafod eu teimladau a rhoi llun o'u hunain ar beg, gan ddewis yr emosiwn perthnasol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant eu bod yn hapus ond dywedodd un plentyn ei fod yn drist gan ei fod wedi anghofio  brwsio ei ddannedd. Dywedodd un plentyn yn llawn cyffro wrth y staff bod ganddo esgidiau newydd "ond nid ydynt yn fflachio".

Mae'r plant wedi setlo'n dda, yn hapus ac wedi ymlacio yn y gwasanaeth hwn.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a chwrtais gyda'u cyfoedion a'u gofalwyr.

Roedd y plant wedi ymlacio ac yn ymddwyn yn dda. Dywedodd rhai 'diolch' heb orfod cael eu hatgoffa a gwnaeth rhai eraill ddiolch i'r staff ar ôl cael eu hatgoffa. Roedd y plant yn parhau i ymddiddori yn eu gweithgareddau am gyfnod sylweddol o amser ar gyfer eu hoedrannau. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda yn ystod ein hymweliad a gwnaethant rannu'n dda â'i gilydd. Roedd y plant yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd wrth iddynt aros am eu byrbryd. Roedd y plant yn sgwrsio'n hyderus â'r staff wrth iddynt eistedd i fwyta eu bwyd a gwnaethant drafod pwy fyddai'n eu casglu y diwrnod hwnnw, er enghraifft.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill.

## 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan lawn, yn ymddiddori ac yn gyffro i gyd wrth chwarae. Maen nhw'n cynnal diddordeb mewn gweithgareddau ac yn amlwg yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig ac amser rhydd.

Roedd y plant yn ymgysylltu'n weithredol drwy gydol yr ymweliad arolygu. Gwnaethom arsylwi ar y plant yn mwynhau gweithgareddau a arweinir gan oedolion a chwarae rhydd, megis gwrando ar straeon a chanu, lliwio, neu chwarae gemau. Gwnaethom arsylwi ar y plant yn chwerthin ac yn cael hwyl, er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau aros i 'Dewin' benderfynu pwy fyddai helpwr y dydd. Roedd y plant yn hunan ysgogol ac wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae rhydd dewisedig, er enghraifft, roedd grŵp o blant yn mwynhau defnyddio pinsiyrnau i drefnu eitemau yn ôl eu lliwiau ar blatiau bach. Roedd y plant yn frwdfrydig iawn ac yn mwynhau canu cân y Cylch yn fawr iawn ac fe'u clywsom yn newid y tempo'n fwriadol gan glapio â mwynhad.

Mae'r plant yn mwynhau profiadau chwarae a dysgu da ac yn profi synnwyr o gyrhaeddiad.

## 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae gan y plant gyfleoedd i ddatblygu ac maent yn dysgu i fod yn annibynnol.

Roedd y plant yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n holistaidd drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o
weithgareddau symbylol. Roedd gan y plant amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys chwarae rhydd, anffurfiol a hunangyfeiriedig a oedd yn eu galluogi i ddysgu amrywiaeth dda o sgiliau, dod yn annibynnol, dilyn eu diddordebau eu hunain a hyrwyddo datblygiad cyffredinol. Roeddent yn mwynhau amser cylch, tasgau creadigol, straeon a chanu a

gwelsom yr holl blant yn cyfrif i ddeg yn ystod amser cylch. Roedd y plant yn ymddwyn yn gwrtais wrth y bwrdd a gwnaeth pob un fwydo ei hun yn annibynnol. Gwelsom enghreifftiau o rai plant yn dod yn annibynnol, er enghraifft, gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant glirio'r byrddau ac roedd y plant hŷn yn gallu cau eu sipiau eu hunain yn ogystal â helpu'r plant iau i gau'r sipiau neu fotymau ar eu cotiau. Dosbarthodd y plant y platiau a'r cwpanau yn ystod amser byrbryd hefyd. Roedd rhai o'r plant hefyd yn gallu adnabod eu henwau ar eu seddi ac ar eu droriau.  Roedd y plant yn mwynhau creu cylchoedd gyda sialc ar y tarmac yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn gaffaeliad i'r gwasanaeth hwn. Maent wedi'u hysgogi ac yn frwdfrydig iawn ac yn ymarferwyr da. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn gweithio'n gyson fel tîm i gefnogi'r plant i gyflawni eu potensial llawn a'u cadw'n ddiogel ac yn iach. Maent yn ofalgar ac yn feithringar ac yn ymateb yn ystyriol i anghenion unigol plant, gan annog nhw i ddod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelwch yn llawn.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i adrodd ynghylch pryderon mewn perthynas â diogelu ac roeddent wedi diweddaru'r datganiad o ddiben yn ddiweddar i gynnwys y manylion cyswllt diweddaraf ac roedd ganddynt bolisi o ran y Ddyletswydd Atal. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diweddar mewn perthynas ag amddiffyn plant. Roedd y staff yn darparu byrbrydau iach megis tost a ffa pob. Roedd y staff yn hyrwyddo gweithdrefnau hylendid da, er enghraifft, roeddent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta gan ddarparu hylif sebon. Hefyd, gwelsom y staff yn glanhau'r byrddau cyn ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Roedd yr arweinwyr wedi cyflwyno cynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy cenedlaethol i'r Cylch.

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn llwyddiannus.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn fodelau rôl da. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig gyda'r plant, ac maent yn gyson o ran eu dull i reoli ymddygiad.

Roedd y staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant o'r munud roeddent yn cyrraedd. Roedd y staff yn fodelau rôl da, yn bwyllog ac amyneddgar gyda'r plant yn eu gofal. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda ynghylch dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol a oedd yn briodol o ran oedran. Roeddent yn gosod esiampl dda drwy siarad yn ddigynnwrf ac yn gwrtais bob amser â phob plentyn. Roedd y staff yn canmol ymddygiad cadarnhaol megis drwy helpu'r plant i dacluso a rhannu ac roeddent hefyd yn rhoi sticeri i blant a oedd yn ymddwyn yn dda. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r plant mewn modd diddorol a brwdfrydig a oedd yn denu eu sylw, er enghraifft, cyflwynodd y staff degan meddal o fascot y sefydliad ymbarél 'Dewin' i'r cylch ac eisteddodd ef yn y cylch gyda'r plant wrth i'r staff gyfeirio ato fel gwrandäwr da. Arweiniodd hyn at ymddygiad rhagorol gan yr holl blant yn ystod amser cylch.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn gyson ac yn effeithlon.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod, yn deall, ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

Roedd staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda drwy arsylwi'n rheolaidd ar eu hoffterau a'u datblygiad sgiliau a thrwy gyfathrebu â'r rhieni yn rheolaidd. Manteisiodd y staff ar bob cyfle i ddatblygu sgiliau'r plant, er enghraifft, roedd staff yn defnyddio'r cyfnodau newid clytiau a golchi dwylo fel cyfle i ganu a siarad â'r plant a gwnaethant ofyn cwestiynau agored i'r plant yn ystod amser byrbryd. Roedd y plant yn cymryd rhan wrth archebu a thalu am fwyd a ddarparwyd gan y ganolfan gymunedol. Fodd bynnag, er bod ganddynt gyfleoedd i ddod yn annibynnol, roedd rhai cyfleoedd a gollwyd yn ystod amser byrbryd, er enghraifft, roedd y staff yn arllwys y llaeth ac yn rhoi'r bwyd ar blatiau'r plant. Cyflwynodd y staff eirfa Gymraeg gadarn a phriodol i'r plant ac roeddent yn effeithiol iawn wrth ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg i blant. Roedd y staff yn rhoi mwy o gyfrifoldebau i'r plant hŷn ac roedd y plant hynny'n mwynhau helpu'r plant iau, er enghraifft, roedd rhai o'r plant hŷn yn gyfrifol am grŵp. Roedd yr holl rieni a ddychwelodd yr holiaduron yn ganmoliaethus iawn am y staff yn y feithrinfa.

Mae'r staff yn ymroddedig ac yn frwdfrydig wrth hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r staff yn sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae ganddynt fynediad at ardal dan do ac awyr agored sy'n cynnig cyfleoedd symbylol ar gyfer chwarae. Mae gan y plant fynediad at amrywiaeth dda o deganau, adnoddau ac offer i wella eu datblygiad cyffredinol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a sicr. Mae arweinwyr yn nodi, a chyn belled â phosibl, yn dileu risgiau i ddiogelwch plant.

Nid oedd y fynedfa i'r ganolfan gymunedol ei hun wedi'i chloi ond roedd clo â chod diogel ar y drws i'r uned lle darperir gofal. Defnyddid llyfr ymwelwyr i gofnodi presenoldeb pob ymwelydd yn y feithrinfa. Roedd y plant yn cael eu goruchwylio bob amser pan oeddent yn mynd i'r coridor i ddefnyddio'r toiledau. Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi sgôr o bump i'r gegin o ran safonau hylendid. Roedd y plant a'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd. Roedd gan y staff system ar waith i lanhau'r ardaloedd a ddefnyddir ganddynt ac roedd y safle'n lân. Fodd bynnag, roedd mop yn cael ei storio ar bwys y mat newid cewynnau. Roedd y system wresogi yn cael ei chynnal a'i chadw gan bwyllgor y ganolfan gymunedol ond nid oedd y dystysgrif ar gael yn ystod yr arolygiad. Yn yr un modd, nid oeddem yn gallu gweld dogfennau mewn perthynas â phrofion dyfeisiau cludadwy yn ystod yr arolygiad. Roedd yr arweinwyr yn rhagweithiol wrth godi materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt gyda phwyllgor y ganolfan, er enghraifft, y larwm tân a'r ffôn. Roedd pwll tywod yn yr ardal awyr agored, gyda chaead anaddas ar ei ben. Roedd yr arweinwyr yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ac roeddent wedi cysylltu â'r cwmni mewn perthynas â'r mater gan ei fod yn ddiffygiol. Roedd gan yr arweinwyr asesiadau risg cyffredinol ar waith gan gynnwys asesiad risg ar gyfer teithio ar fws ac roeddent hefyd yn creu asesiadau risg wedi'u teilwra ar gyfer unrhyw wibdeithiau megis tripiau i'r traeth ac roeddent yn cwblhau rhestrau gwirio beunyddiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion.

Roedd gan y Cylch ddefnydd unigol o uned hunangynhwysol o fewn neuadd y gymuned ac roeddent wedi sicrhau bod gan y plant fynediad at deganau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u diddordebau. Roedd hysbysfyrddau lliwgar a llawn gwybodaeth yn y cyntedd ac roedd arddangosiadau lliwgar, a oedd yn cynnwys gwaith y plant, wedi'u harddangos yn yr uned ei hun. Roedd corneli dysgu dynodedig wedi cael eu cynllunio ond nid oeddent yn helpu'r

plant bob amser i ddysgu ac archwilio'n annibynnol. Er enghraifft, gwelsom blant yn chwarae gyda hambyrddau twff, cegin fwd, chwyddwydrau, datgelwyr metel, byrddau gwyn, popoids, duplo, anifeiliaid fferm, tractorau a ’stickle bricks’. Roedd rhai o'r teganau'n cael eu storio mewn bocsys ar lefel y plant ond yn gyffredinol nid oedd labeli ar y bocsys. Oherwydd diffyg lle i storio, daeth y staff â rhai teganau i'r bwrdd i'r plant chwarae â nhw. Roedd y byrddau a'r cadeiriau yn briodol i oedran y plant ac roedd ffedogau yn hongian o fewn cyrraedd y plant. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod cyflenwad helaeth o adnoddau ac offer ar gael er mwyn caniatáu i'r staff ddiwallu anghenion y plant yn brydlon, megis hancesi ac adnoddau newid cewynnau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar y cyfan.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau, sydd o ansawdd da.

Roedd y staff yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ddodrefn, offer a theganau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u datblygiad. Canfuom fod y teganau'n lân ac mewn cyflwr da. Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft. Roedd gan yr ardal awyr agored lawer o adnoddau priodol ac roedd y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn fawr iawn. Roedd yr adnoddau awyr agored yn cynnwys dŵr a brwshys ar gyfer creu marciau, byrddau sialc, tŷ bach twt, meinciau, chwarae hop scotch a phwll tywod. Er hynny, yn ystod yr arolygiad gwnaethom hysbysu'r arweinwyr nad oedd cyflwr y caead ar y pwll tywod yn foddhaol.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrediad da o deganau, adnoddau a deunyddiau priodol.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y Cylch. Mae gan y gwasanaeth aelodau staff sefydlog iawn sy'n mwynhau eu swyddogaethau ac mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da gyda’r rhieni a chyda’r gymuned leol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio ac mae ethos sy'n gwerthfawrogi staff a phlant. Mae anghenion plant wrth galon y ddarpariaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffurflenni cofrestru plant a chontractau rhieni a chanfuom eu bod yn cyd-fynd â’r rheoliadau. Yn ystod yr arolygiad, nid oeddem yn gallu dod o hyd i fanylion am dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd aelod o'r staff ond fe'i hanfonwyd ymlaen atom yn ystod yr arolygiad. Roedd datganiad o ddiben ar gael ond nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau yn ystod yr arolygiad. Roedd gan ddarparwyr ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau i hybu’r Gymraeg a dangoswyd bod y ‘cynnig gweithredol’ yn cael ei weithredu'n llawn.

Mae’r arweinwyr yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr a staff yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn cydweithio â rhieni er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Roedd y person â gofal a'r person cofrestredig wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal ac wedi anfon copi  o'r adroddiad i AGC. Roedd y personau â gofal wedi rhoi holiaduron i rieni ac wedi gwrando ar fewnbwn plant. Roedd yr arweinwyr hefyd yn ystyried yr adborth ar lafar a dderbyniwyd gan y tîm bwyta'n iach, y tîm ariannu tair blynedd a'r swyddog datblygu cefnogol. Oherwydd y ffaith nad oedd llawer o rieni wedi dychwelyd holiaduron, mae'r arweinwyr wedi penderfynu gofyn i rieni gwblhau'r holiaduron yn y gwasanaeth wrth iddynt ddod â'u plant. Roedd gan arweinwyr weledigaeth i wella'r ardal awyr agored ymhellach. Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben sy’n hybu ac yn cynnal gwelliannau a chanlyniadau da i’r plant.

Mae arweinwyr yn hunanwerthuso'r gwasanaeth yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Roedd y staff yn hapus iawn yn y gwasanaeth ac yn gweithio'n hynod dda fel tîm.

Roedd y staff sy’n gweithio yn y cylch chwarae yn gymwysedig ac yn brofiadol iawn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a chanfod eu bod yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol. Canfuom fod cymarebau staffio'n cael eu cynnal bob adeg. Roedd rhai o'r staff wedi cael hyfforddiant arall gan gynnwys iaith arwyddion, deall ADHD a rheoli perfformiad. Roedd arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd staff bob mis ac roedd cofnodion yn cael eu cadw. Roedd arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol ond nid oedd cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol 1:1 yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fe'n hysbyswyd bod trafodaethau staff a thrafodaethau cynllunio yn cael eu cynnal yn rheolaidd iawn mewn modd anffurfiol.

Mae'r gwaith o reoli ymarferwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae’r arweinwyr yn darparu gwybodaeth berthnasol i rieni ynglŷn â gofal eu plant.

Gwelsom fod y personau â gofal wedi dosbarthu pecynnau rhiant i rieni cyn i'w plant ddechrau a'u bod wedi casglu gwybodaeth gan rieni ynglŷn â'u plant megis eu hoffterau, trefnau, safle yn y teulu a'u cysurwyr/hoff deganau cyn iddynt fynychu'r feithrinfa. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n llawn mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft, drwy siarad â nhw'n uniongyrchol, drwy lythyrau, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy arddangos gwybodaeth yng nghyntedd y feithrinfa. Roedd yr arweinwyr yn cynnal boreau agored yn rheolaidd ac roedd ganddynt bartneriaethau cryf iawn gyda'r gymuned leol gan gynnwys neuadd y gymuned, ysgolion lleol a chlybiau ffermwyr ifanc. Roedd arweinwyr hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gofal plant lleol eraill ac roedd plant o Gylch arall wedi ymweld ar gyfer parti. Roedd y pwyllgor cefnogol wedi codi llawer o arian er budd y plant yn y Cylch. Rhoddwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr holl rieni a ddychwelodd yr holiaduron a roddwyd fel rhan o'r arolygiad.

Mae'r arweinwyr a'r staff wedi ffurfio partneriaethau llwyddiannus.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod arweinwyr yn:

- diweddaru'r datganiad o ddiben;
- ffurfioli'r broses oruchwylio;
- sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant cyfredol;
- rhoi labeli ar flychau storio;
- datblygu'r cornel llythrennedd/rhifedd ymhellach;
- ystyried cynyddu'r mannau storio;
- datblygu’r ardal awyr agored ymhellach;
- cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant ymhellach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 16 Mai 2018 am gyfanswm o bedair awr a hanner. Gwnaethom roi adborth ar 17 Mai 2018 am gyfanswm o awr. Yn ystod yr ymweliad gwnaethom y canlynol:

- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn gan y staff;
- gwnaethom siarad â'r plant, y staff a rhieni;
- gwnaethom dderbyn pedwar holiadur gan rieni a holiaduron gan y staff hefyd;
- gwnaethom gwblhau dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan staff;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, adroddiad adolygiad ansawdd gofal, ffeiliau staff, ffeiliau plant, cofnodion o ddigwyddiadau ac asesiadau risg;
- gwnaethom edrych ar y safle.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Person cofrestredig** | **Iwan Ward** |
| **Person â gofal** | **Elizabeth Phillips**<br>**Bethan James** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **16** |
| **Ystod oedran y plant** | **Dwy i  dair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9.00am a 12.00pm, dydd Llun i ddydd Iau (tymor yr ysgol yn unig)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **21 Ebrill 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |